# Cynllun Teledu Cylch Cyfyng Goruchwylio Mannau Cyhoeddus

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dogfen Bolisi 2024

**Cod Ymarfer ar gyfer rheoli a gweithredu'r System Teledu Cylch Cyfyng mewn Mannau Cyhoeddus**

Yn cydymffurfio gyda:
BS 7958:2015 Teledu Cylch Cyfyng – Rheoli a Gweithredu – Cod Ymarfer
BS 7499: 2013 Gwarchod Safleoedd Sefydlog a Gwasanaethau Patrôl Symudol – Cod Ymarfer (Rhannau Perthnasol)
BS 7858: 2012 Sgrinio Diogelwch Unigolion a Gyflogir mewn Amgylchedd Diogelwch – Cod Ymarfer

Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng y Comisiynydd Gwybodaeth
Cod Ymarfer Camerâu Goruchwylio'r Swyddfa Gartref

**Cynnwys**

**Adran**


1. Cyflwyniad ac Amcanion (Tudalen 3)
2. Datganiad Diben (Tudalen 4)
3. Egwyddorion a Pholisïau (Tudalen 7)
4. Atebolrwydd a Gwybodaeth i'r Cyhoedd (Tudalen 12)
5. Asesiad o'r System a Chod Ymarfer (Tudalen 13)
6. Rheoli a Gweithredu Camerâu (Tudalen 14)
7. Mynediad a Diogelwch ar gyfer y Ganolfan Reoli a chyfarpar cysylltiedig (Tudalen 17)
8. Rheoli deunydd wedi'i recordio (Tudalen 18)

- Atodiad A Personél Allweddol
- Atodiad B Arwydd Teledu Cylch Cyfyng Rhondda Cynon Taf
- Atodiad C Hysbysiad Mynediad Cyfyngedig
- Atodiad D Lleoliadau Camerâu

# 1.0 CYFLWYNIAD AC AMCANION

**Cyflwyniad**

*Cyflwynwyd system Teledu Cylch Cyfyng i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r system yma, a adwaenir fel 'System Teledu Cylch Cyfyng Canol Trefi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y System), yn cynnwys nifer o gamerâu wedi'u gosod mewn lleoliadau strategol. Mae pob un yn gweithredu'n llawn a gyda chyfleusterau troi, gogwyddo a chwyddo. Mae rhai eraill yn gamerâu sefydlog, y cyflwynir delweddau ohonynt yn yr un ystafell. At ddibenion y ddogfen yma, 'perchennog' y system yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. At ddibenion y Ddeddf Diogelu Data, y 'rheolwr data' ar gyfer y System yw'r Uwch Swyddog Teledu Cylch Cyfyng. 'Rheolwr y system' yw'r Uwch Swyddog Teledu Cylch Cyfyng. Rhoddwyd gwybod am y System i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dangosir manylion am bersonél allweddol, eu cyfrifoldebau a'u manylion cyswllt yn Atodiad A i'r Cod yma.*

**Datganiad partneriaeth mewn perthynas â Deddf Hawliau Dynol 1998.**

Mae'r bartneriaeth yn cydnabod ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus a'r sefydliadau hynny sy'n ymgymryd â swyddogaethau o natur gwasanaeth cyhoeddus barchu'r rhwymedigaethau a osodir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, ac mae hi o'r farn bod defnyddio Teledu Cylch Cyfyng yn Rhondda Cynon Taf yn adnodd angenrheidiol, cymesur ac addas i helpu i leihau troseddau, lleihau ofn troseddau a gwella diogelwch y cyhoedd.

Caiff yr asesiad yma ei gefnogi gan ddogfen 'gofyniad gweithredol' y cytunwyd arni. Mae Adran 163 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol ddarparu lluniau teledu cylch cyfyng dros unrhyw dir yn eu hardal at ddibenion atal trosedd neu er budd lles dioddefwyr ac ystyrir ei bod hefyd yn fenter angenrheidiol gan y Partneriaid tuag at eu dyletswydd o dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998.

Cydnabyddir y gellir ystyried bod gweithredu'r System yn tresmasu ar breifatrwydd unigolion. Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod mai ei chyfrifoldeb hi yw sicrhau y dylai'r cynllun gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol bob amser, er mwyn sicrhau ei gyfreithlondeb a'i gyfreithlonrwydd. Dim ond fel ymateb cymesur i broblemau a nodwyd y caiff y cynllun ei ddefnyddio a dim ond i'r graddau ei fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd, er budd diogelwch gwladol, diogelwch y cyhoedd, llesiant economaidd yr ardal, er atal a chanfod trosedd neu anhrefn, er diogelu iechyd a moesau, neu er diogelwch hawliau a rhyddid pobl eraill.

Bydd dilyn y Codau Ymarfer ac ufuddhau i'r Gweithdrefnau Gweithredol yn y llawlyfr yn sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei sicrhau a'i chadw a'i bod ar gael yn unol â'r gofynion er mwyn sicrhau bod parch llwyr i hawl pawb i dreial rhydd.

Caiff y System ei gweithredu â pharch i'r unigolion i gyd, gan gydnabod yr hawl i fod heb driniaeth greulon neu ddiraddiol, ac osgoi gwahaniaethu ar unrhyw sail megis rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn wleidyddol arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.

**Amcanion y System**

Dyma amcanion y System, fel y'u pennwyd gan y perchnogion/partneriaid, sy'n ffurfio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data:-

- *Helpu i leddfu ofn o ran trosedd*
- *Helpu i atal troseddau*
- *Helpu i ganfod troseddau a darparu deunydd tystiolaethol ar gyfer achosion llys*
- *Cynorthwyo wrth reoli canol trefi yn gyffredinol yn Rhondda Cynon Taf a gwmpesir gan ei system teledu cylch cyfyng canol trefi*
- *Gwella diogelwch yn y gymuned, cynorthwyo wrth ddatblygu lles economaidd yr ardal ac annog mwy o ddefnydd o ganol trefi, meysydd parcio, ardaloedd siopa ac ati.*
- *Cynorthwyo'r Awdurdod Lleol yn ei swyddogaethau gorfodi a rheoleiddio yn yr ardaloedd a gwmpesir*
- *Cynorthwyo wrth gefnogi achosion sifil a fydd yn helpu i ganfod troseddau*
- *Cynorthwyo wrth hyfforddi gweithredwr Teledu Cylch Cyfyng, yr Heddlu ac eraill sy'n gysylltiedig â defnyddio'r system Teledu Cylch Cyfyng*

**Llawlyfr Gweithdrefnol**

Ategir y Cod Ymarfer yma (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y Cod') gan 'Llawlyfr Gweithdrefnol' ar wahân sy'n cynnig cyfarwyddiadau ar bob agwedd ar weithredu'r system o ddydd i ddydd. Er mwyn sicrhau bod diben ac egwyddorion y system teledu cylch cyfyng yn cael eu gwireddu, mae'r llawlyfr gweithdrefnol yn seiliedig ac yn ymhelaethu ar gynnwys y Cod Ymarfer yma.

## 2.0 DATGANIAD DIBEN

**Diben**

Diben y ddogfen yma yw datgan bwriad y perchnogion a'r rheolwyr, ar ran y bartneriaeth gyfan a chyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, i gefnogi amcanion y *System* ac amlinellu sut y bwriedir gwneud hynny.

'Diben' y system, a'r broses a fabwysiedir wrth bennu'r 'Rhesymau' am weithredu'r 'System' fel y'i diffiniwyd yn flaenorol er mwyn cyflawni'r amcanion y manylwyd arnynt yn Adran 1.

**Egwyddorion Cyffredinol y Gweithrediad**

Bydd y system yn cael ei gweithredu'n unol â holl ofynion ac egwyddorion Deddf Hawliau Dynol 1998.

Bydd gweithredu'r System hefyd yn cydnabod yr angen am awdurdodi ffurfiol unrhyw guddwylio 'cyfeiriedig' neu oruchwylio tueddiadau trosedd (man troseddu aml) yn unol â gofynion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a pholisi'r heddlu.

Bydd y system yn cael ei gweithredu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ar bob adeg.

Bydd y System yn cael ei gweithredu'n deg, o fewn y gyfraith, a dim ond at y dibenion y cafodd eu sefydlu ac a nodir yn y Cod yma, neu y cytunir arnyn nhw wedyn yn unol â'r Cod Ymarfer yma.

Bydd y system yn cael ei gweithredu gyda sylw dyledus i'r egwyddor bod gan bob un yr hawl i barch at ei fywyd preifat a theuluol, a'i gartref.

Bydd budd y cyhoedd wrth weithredu'r system yn cael ei gydnabod trwy sicrhau diogelwch a chywirdeb gweithdrefnau gweithredol.

Trwy gydol y Cod Ymarfer yma, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl, bwriedir cydbwyso amcanion y System Teledu Cylch Cyfyng â'r angen i ddiogelu hawliau'r unigolyn. Gwnaed pob ymdrech trwy gydol y Cod i nodi bod strwythur ffurfiol wedi'i roi ar waith, gan gynnwys gweithdrefn gwyno. Trwy'r weithdrefn hon, yn ogystal â bod yn atebol, gellir gweld bod y System yn atebol.

Mae cymryd rhan yn y system gan unrhyw sefydliad, unigolyn neu awdurdod yn tybio cytundeb gan yr holl gyfranwyr i gydymffurfio'n llwyr â'r Cod yma a bod yn atebol o dan y Cod Ymarfer.

**Hawlfraint**

Y rheolwr data fydd yn cadw hawlfraint a pherchnogaeth yr holl ddeunydd a recordir drwy rinwedd y System.

**Camerâu a Chwmpas Ardal**

Mae camerâu'n cynnig gosodiadau troi, gogwyddo a chwyddo mewn lliw, y gall rhai ohonynt newid yn awtomatig i ddu a gwyn mewn amodau golau isel.

Ni fydd y camerâu a fydd yn rhan o'r System yn cael eu gosod mewn modd cudd. Gellir amgáu rhai camerâu mewn 'cromenni pob tywydd' am resymau esthetig neu weithredol, ond bydd presenoldeb yr holl gamerâu'n cael ei nodi gan arwyddion priodol.

**Cyfleusterau Monitro a Recordio**

Mae ystafell fonitro â staff mewn lleoliad addas yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r cyfarpar teledu cylch cyfyng yn gallu recordio'r holl gamerâu ar yr un pryd trwy gydol pob cyfnod 24 awr.

Gellir gosod cyfarpar monitro eilaidd mewn eiddo [heddlu] (arall). Ni fydd cyfarpar, heblaw am yr hyn yn y brif ystafell reoli Teledu Cylch Cyfyng, yn gallu recordio delweddau o unrhyw un o'r camerâu.

Mae gweithredwyr teledu cylch cyfyng yn gyfrifol am recordio delweddau o rai camerâu mewn amser real, ac yn cynorthwyo wrth gynhyrchu delweddau wedi'u recordio, ailchwarae neu gopïo unrhyw ddata a recordiwyd ymlaen llaw yn ôl eu disgresiwn ac yn unol â'r Cod Ymarfer. Caiff yr holl gyfarpar gwylio a recordio ei weithredu gan ddefnyddwyr hyfforddedig ac awdurdodedig yn unig.

**Adnoddau Dynol**

Ni fydd gan bobl heb awdurdod fynediad at y delweddau heb aelod awdurdodedig o staff yn bresennol.

Caiff yr ystafell fonitro ei staffio'n benodol gan weithredwyr wedi'u dewis a'u hyfforddi'n arbennig yn unol â'r strategaeth yn y llawlyfr gweithdrefnol.

Bydd yr holl weithredwyr yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl yng ngofynion Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a'r Codau Ymarfer a Gweithdrefnau. Darperir rhagor o hyfforddiant yn ôl yr angen.

**Prosesu a Thrin deunydd wedi'i recordio**

Bydd yr holl ddeunydd a recordir yn cael ei brosesu a'i drin yn unol â'r Cod Ymarfer hwn a'r Llawlyfr Gweithdrefnol.

**Cyfarwyddiadau Gweithredwyr**

Mae cyfarwyddiadau technegol ar ddefnyddio cyfarpar yn yr ystafell fonitro mewn llawlyfr ar wahân a ddarperir gan gyflenwyr y cyfarpar.

**Newidiadau i'r Cod Ymarfer neu'r Llawlyfr Gweithdrefnol**

Bydd unrhyw newidiadau mawr naill ai i'r Cod Ymarfer neu'r Llawlyfr Gweithdrefnol, (h.y. a fydd yn cael effaith sylweddol ar y Cod Ymarfer neu ar weithrediad y system) yn digwydd dim ond ar ôl ymgynghori â'r holl sefydliadau y mae ganddynt rôl gyfranogol yng ngweithrediad y system a chael cytundeb ganddyn nhw.

Gellir cytuno ar fân newid, (h.y. fel y gall fod yn ofynnol ar gyfer eglurhad ac na fydd yn cael effaith mor sylweddol) rhwng y rheolwr a pherchnogion y system.

Nodiadau

I. Ystyrir y caiff camera Teledu Cylch Cyfyng ei osod yn **agored** oni bai y caiff ei osod mewn modd lle mae ei bresenoldeb yn cael ei guddio'n fwriadol o olwg unrhyw un sy'n debygol o fod o fewn golwg y camera hwnnw.

II. Nid ystyrir bod camerâu y gellir eu gosod mewn cromenni neu eu gorchuddio er mwyn lleihau tebygolrwydd asesu eu golwg, neu er mwyn eu diogelu rhag tywydd neu ddifrod, yn gudd ar yr amod y caiff arwyddion priodol sy'n nodi defnydd o gamerâu o'r fath eu dangos yn y cyffiniau.

III. Anogir peidio â defnyddio camerâu 'ffug' fel rhan o System Teledu Cylch Cyfyng. Gwerth ataliol mwyaf System Teledu Cylch Cyfyng yw ei phŵer i gynhyrchu deunydd tystiolaethol ac, wrth wneud hynny, roi sicrwydd i'r rhai y bwriedir eu hamddiffyn.

IV. Cydnabyddir y gweithredir llawer o Systemau Teledu Cylch Cyfyng yn 'rhan-amser' neu heb fudd ystafell fonitro â staff. Yn y fath achosion, dylid cymhwyso cyfeiriad at 'ystafelloedd monitro' trwy gydol y Cod hwn i gyfleusterau monitro a recordio presennol fel y bo'n briodol.

V. Hefyd, er budd diogelwch, cydnabyddir nad yw perchnogion System Teledu Cylch Cyfyng am i union leoliad yr ystafell fonitro berthnasol gael ei gynnwys yn nhestun Cod Ymarfer.

## 3.0 EGWYDDORION A PHOLISÏAU CRAIDD

**Pryder y Cyhoedd**

Er ei bod yn bosibl bod y rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol wedi arfer â 'chael eu gwylio', mae'r rhai sy'n mynegi pryder yn gwneud hynny'n bennaf dros faterion sy'n ymwneud â phrosesu'r wybodaeth, (neu'r data) h.y. yr hyn sy'n digwydd i'r deunydd a geir.

**Nodwch:** Ystyr '***Prosesu'*** yw **cael, recordio** neu **gadw'r** wybodaeth neu'r data neu **gynnal gweithrediad** neu **gyfres o weithrediadau** ar yr wybodaeth neu'r data.

Bydd yr holl ddata personol a geir trwy rinwedd y System, yn cael eu prosesu'n deg ac yn gyfreithlon ac, yn benodol, dim ond wrth gyflawni amcanion y system a nodwyd y caiff eu prosesu. Wrth brosesu data personol, bydd parch llwyr at hawl pob un at ei fywyd preifat a theuluol a'i gartref .

Bydd dulliau storio a diogelwch y data yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 1998 a gweithdrefnau ychwanegol y cytunir arnynt yn lleol.

**Diogelu Data a Deddfwriaeth Hawliau Dynol**

Yn unol â deddfwriaeth bresennol Diogelu Data, rhoddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am weithrediad y System.

'Rheolwr data' y System yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a chaiff cyfrifoldeb am y data o ddydd i ddydd ei drosglwyddo i'r Uwch-swyddog Teledu Cylch Cyfyng.

Caiff yr holl ddata eu prosesu'n unol ag egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 sydd, yn ei ffurf gryno, yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

i) Caiff yr holl ddata personol eu sicrhau a'u prosesu'n deg ac yn gyfreithlon.

ii) Caiff yr holl ddata personol eu cadw at y dibenion a nodwyd yn unig.

iii) Caiff data personol eu defnyddio dim ond at y dibenion, a'u datgelu dim ond i'r bobl, a ddangosir yn y codau ymarfer hyn.

iv) Dim ond data personol sy'n ddigonol, yn berthnasol ac nad yw'n ormodol mewn perthynas â'r diben y cedwir y data ato a gaiff eu cadw.

v) Caiff camau eu cymryd er mwyn sicrhau bod data personol yn gywir a, lle y bo angen, yn cael eu cadw'n gyfredol.

vi) Ni chedwir data personol yn hwy na'r hyn sy'n angenrheidiol.

vii) Caniateir i unigolion gyrchu gwybodaeth a gedwir amdanynt a, lle y bo'n briodol, caniateir iddynt ei chywiro neu ei dileu.

viii) Caiff gweithdrefnau eu gweithredu er mwyn rhoi mesurau diogelwch ar waith er mwyn atal mynediad heb awdurdod neu ddamweiniol at wybodaeth, ei haddasu, ei datgelu, neu ei cholli a'i dinistrio.

**Deddf Hawliau Dynol 1998**

Caiff y system ei gweithredu gan awdurdod cyhoeddus neu ar ei ran, mae'r awdurdod wedi ystyried y materion hawliau dynol ehangach ac, yn benodol, oblygiadau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol).

Mae gan bob un yr hawl i barch at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth

Ni fydd ymyriad gan awdurdod cyhoeddus wrth arfer yr hawl hon ac eithrio yn unol â'r gyfraith ac os bydd ei hangen mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch gwladol, diogelwch y cyhoedd neu lesiant economaidd y wlad, er atal anhrefn a throsedd, er diogelu iechyd neu foesau, neu er diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill. Felly, er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 8 (1), ac Erthygl 8 (2), bydd gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng Cyngor Rhondda Cynon Taf bob amser yn ystyried y canlynol:

**Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996**

Daeth Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 i rym ym mis Ebrill 1997 a chyflwynodd fframwaith statudol ar gyfer datgelu deunydd i ddiffynyddion na fyddai'r erlyniaeth yn bwriadu ei ddefnyddio yn erlyniad ei achos ei hun (a adwaenir fel deunydd nas defnyddir) ond ni ddylid drysu deunydd nas defnyddir dan ddarpariaethau'r Ddeddf hon â'r rhwymedigaethau a osodir ar y rheolwr data gan Adran 7 o Ddeddf Diogelu Data 1998(a elwir yn fynediad at ddata gan y testun).

**Gwneud cais am wybodaeth (mynediad at ddata gan y testun)**

Caiff cais gan unigolyn am ddatgelu data personol y mae'n credu eu bod yn cael eu recordio trwy rinwedd y system ei gyfeirio i ddechrau at reolwr y system (Uwch-swyddog Teledu Cylch Cyfyng).

Caiff egwyddorion Adrannau 7, 8, 10 a 12 o Ddeddf Diogelu Data 1998 (Hawliau Gwrthrychau Data ac Eraill) eu dilyn mewn perthynas â phob cais.

Os nad oes modd cydymffurfio â'r cais heb adnabod unigolyn arall, rhaid ystyried caniatâd gan bob parti (yng nghyd-destun graddau'r preifatrwydd y gallent eu disgwyl yn rhesymol o fod yn y lleoliad hwnnw ar yr adeg honno) yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.

Bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais allu profi ei hunaniaeth yn foddhaol a rhoi gwybodaeth ddigonol er mwyn galluogi dod o hyd i'r data.

**Nodwch: Caiff pob cais ei asesu ar ei deilyngdod ei hun ac ni chymhwysir 'eithriadau llwyr' cyffredinol.**

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Os ceir cais am ddelweddau Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'r unigolyn sy'n gwneud y cais yw'r gwrthrych, bydd yn cael ei eithrio rhag Deddf Rhyddid Gwybodaeth a chaiff ei drin o dan yr Egwyddorion Diogelu Data.

Gellir datgelu ceisiadau eraill nad ydyn nhw'n adnabod unigolion, ond dim ond ar yr amod na fyddan nhw'n torri'r egwyddorion diogelu data.

**Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000**

**Cyflwyniad**

Daeth Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000 i rym ar 2 Hydref 2000. Mae'n gosod gofyniad ar awdurdodau cyhoeddus a restrir yn Atodlen 1: Rhan 1 y ddeddf i awdurdodi mathau penodol o guddwylio yn ystod ymchwiliadau wedi'u cynllunio.

*Cefndir*

Mae arsylwi cyffredinol yn rhan o ddyletswyddau llawer o swyddogion gorfodi'r gyfraith a chyrff cyhoeddus eraill. Bydd swyddogion heddlu ar batrôl mewn meysydd pêl-droed a lleoliadau eraill yn monitro'r dorf er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd ac atal anhrefn. Mae modd i swyddogion hefyd dargedu "man troseddu aml" er mwyn adnabod ac arestio troseddwyr sy'n cyflawni trosedd yn y lleoliad hwnnw. Gall safonau masnach neu swyddogion Tollau Tramor a Chartref EM arsylwi'n gudd ac yna ymweld â siop fel rhan o'u swyddogaeth orfodi er mwyn gwirio cyflenwad neu lefel cyflenwad nwyddau neu wasanaethau a all fod yn agored i gyfyngiad neu dreth. Gall y fath arsylwi gynnwys defnyddio cyfarpar er mwyn atgyfnerthu canfyddiad synhwyraidd arferol yn unig, megis ysbienddrych, neu ddefnyddio camerâu, lle nad yw hyn yn cynnwys goruchwylio unigolyn yn systematig Mae'n rhan o swyddogaethau pob dydd gorfodi'r gyfraith neu gyrff cyhoeddus eraill. Ni fydd y gweithgarwch lefel isel hwn fel arfer yn cael ei reoleiddio o dan ddarpariaethau Deddf 2000.

Hefyd, nid yw darpariaethau'r Ddeddf yn cwmpasu defnydd arferol, pob dydd o systemau teledu cylch cyfyng **agored**. Mae aelodau'r cyhoedd yn effro i'r ffaith bod systemau o'r fath yn cael eu defnyddio, er eu diogelwch eu hunain, ac i atal troseddu. Fodd bynnag, ni ragwelwyd sut y byddai'r Ddeddf yn effeithio ar ddefnydd penodol, wedi'i dargedu o systemau Teledu Cylch Cyfyng cyhoeddus/preifat gan 'Awdurdodau Cyhoeddus perthnasol' a gwmpesir yn Atodlen 1: Rhan 1 y Ddeddf, pan gânt eu defnyddio yn ystod eu hymchwiliadau wedi'u cynllunio.

Lle ceir ymyriad gan awdurdod cyhoeddus â hawliau Erthygl 8 (tresmasu preifatrwydd), a lle nad oes ffynhonnell awdurdod arall, gallai canlyniadau peidio â chael awdurdodiad dan y Rhan hon olygu bod y weithred yn anghyfreithlon trwy rinwedd adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (hawl i dreial teg) a gallai'r dystiolaeth gael ei heithrio mewn llys dan Adran 78 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

Rhennir y Ddeddf yn bum rhan: Rhan II yw rhan berthnasol y ddeddf ar gyfer Teledu Cylch Cyfyng. Mae'n creu system o awdurdodiadau ar gyfer mathau amrywiol o guddwylio . Y mathau o weithgarwch a gwmpesir yw "goruchwylio ymwthiol" a "goruchwylio gyfeiriedig". Bydd angen awdurdodiad ar y ddau fath o oruchwyliaeth, os byddan nhw'n rhan o weithrediad a gynlluniwyd ymlaen llaw, gan bobl benodol a enwir yn y Ddeddf Yn ychwanegol, rhaid i'r rhesymau am y fath oruchwylio gael eu nodi'n glir a dod dan y meini prawf a amlinellir gan y ddeddfwriaeth yma. Rhoddir gweithdrefn ar waith i gynnal adolygiadau rheolaidd o awdurdodi.

Bydd holl gynlluniau Rhondda Cynon Taf yn ufuddhau i'r meini prawf a osodwyd yn y gofynion deddfwriaethol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref:-

www.homeoffice.gov.uk/ripa/ripact.htm

## Cod Ymarfer Camerâu Goruchwyliaeth

Roedd y Cod Ymarfer yn un o ofynion Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ac mae'n pennu canllawiau i systemau Teledu Cylch Cyfyng ac Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig i sicrhau bod eu defnydd yn agored ac yn gymesur a'u bod yn gallu cofnodi delweddau o safon sy'n rhoi cyfle gwell i'r heddlu ddal troseddwyr a lleihau troseddu.

Mae'r cod wedi'i lunio ar 12 egwyddor arweiniol, sy'n rhoi fframwaith arfer da sy'n cynnwys rhwymedigaethau cyfreithiol presennol Mae'r rhwymedigaethau presennol hynny'n cynnwys prosesu data personol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, dyletswydd awdurdod cyhoeddus i ufuddhau i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a mesurau diogelu o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 sy'n gysylltiedig â defnyddio goruchwylio gyfeiriedig a chuddwylio gan awdurdod cyhoeddus. Rhaid i ddefnydd o system camerâu goruchwylio wneud y canlynol:

1. Bod at ddiben penodol bob amser sy'n dilyn nod cyfreithlon ac angenrheidiol i ddiwallu angen enbyd a nodwyd
2. Ystyried ei heffaith ar unigolion a'u preifatrwydd
3. Bod mor dryloyw ag y bo modd, gan gynnwys man cyswllt cyhoeddedig ar gyfer mynediad at wybodaeth a chwynion
4. Bod â chyfrifoldeb ac atebolrwydd clir dros yr holl weithgarwch goruchwylio, gan gynnwys delweddau a gwybodaeth a gaiff eu casglu, eu cadw a'u defnyddio
5. Bod â rheolau, polisïau a gweithdrefnau clir ar waith a rhaid i'r rhain gael eu cyfleu i bawb y mae angen iddynt gydymffurfio â nhw
6. Peidio â storio mwy o ddelweddau a gwybodaeth na'r hyn sy'n ofynnol

7. Cyfyngu ar fynediad i ddelweddau a gwybodaeth a gedwir gyda rheolau clir ynghylch pwy all gael mynediad
8. Ystyried unrhyw safonau gweithredol, technegol a chymhwysedd cymeradwy sy'n berthnasol i system a'i diben a'i gwaith i fodloni a chynnal y safonau hynny.
9. Bod yn amodol ar fesurau diogelwch priodol er mwyn diogelu yn erbyn mynediad a defnydd heb awdurdod
10. Bod â dulliau adolygu ac archwilio effeithiol er mwyn sicrhau cydymffurfio â gofynion, polisïau a safonau cyfreithiol
11. Cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i gefnogi diogelwch y cyhoedd a gorfodi'r gyfraith gyda'r nod o brosesu delweddau a gwybodaeth o werth tystiolaethol, pan gânt eu defnyddio i gyflawni nod cyfreithlon
12. Bod yn gywir a chael eu cadw'n gyfredol pan ddefnyddir gwybodaeth i gefnogi system camerâu goruchwylio sy'n cymharu yn erbyn cronfa ddata gyfeirio at ddibenion paru.

Er bod yr egwyddorion uchod yn wirfoddol, rhaid i Awdurdodau Lleol eu hystyried a bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gweithio er mwyn parhau i gydymffurfio â'r gofynion.

Mae modd dod o hyd i wybodaeth a chopi o'r Codau yn [www.gov.uk/government/uploads](www.gov.uk/government/uploads)

## 4.0 ATEBOLRWYDD A GWYBODAETH I'R CYHOEDD

**Y Cyhoedd**

Am resymau diogelwch a chyfrinachedd, cyfyngir ar fynediad i'r ystafell fonitro Teledu Cylch Cyfyng yn unol â'r Cod Ymarfer yma. Serch hynny, er budd bod yn agored ac yn atebol, caniateir i unrhyw un sydd am ymweld â'r ystafell wneud hynny, yn amodol ar gymeradwyaeth rheolwr y System ac ar ôl gwneud trefniadau ymlaen llaw ag ef.

Fydd camerâu ddim yn cael eu defnyddio i edrych y tu mewn i mewn i eiddo preswyl preifat. Lle mae'r cyfarpar yn ei alluogi, caiff 'parthau preifatrwydd' eu rhaglennu i mewn i'r system fel y bo'n ofynnol er mwyn sicrhau na fydd y camerâu'n goruchwylio'r tu mewn i unrhyw eiddo preswyl preifat sydd o fewn cwmpas y system. Os na ellir rhaglennu'r fath 'barthau', caiff y gweithredwyr eu hyfforddi'n benodol mewn materion preifatrwydd.

Gall aelod o'r cyhoedd sydd am gofrestru cwyn ynghylch unrhyw agwedd ar y System wneud hynny trwy gysylltu â swyddfa rheolwr y System. Trinnir pob cwyn yn unol â gweithdrefn gwyno'r Awdurdod Bydd unrhyw faterion perfformiad a nodir yn cael eu hystyried dan weithdrefnau disgyblu'r sefydliad y mae holl aelodau'r Awdurdod, gan gynnwys personél Teledu Cylch Cyfyng, yn ddarostyngedig iddyn nhw.

**Rheolwr y System**

Bydd gan y rheolwr a enwebir yn Atodiad A gyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros y system gyfan.

Bydd y system yn destun archwiliad blynyddol,

Bydd rheolwr y system yn sicrhau y cydnabyddir pob cwyn yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith a fydd yn cynnwys rhoi gwybod i'r achwynydd am y weithdrefn ymholiadau i'w chynnal. Caiff adroddiad ffurfiol ei anfon ymlaen at enwebai perchennog y system a enwir yn Atodiad A, gan roi manylion am bob cwyn a chanlyniad ymholiadau perthnasol.

**Nodwch:** *Byddai proses fer anffurfiol ymlaen llaw, lle mae Rheolwr y System yn rhoi gwybod i berchnogion y system am unrhyw gŵyn o fewn 7 niwrnod gwaith yn cael ei hystyried yn arfer gorau.*

Bydd gwybodaeth ystadegol a gwybodaeth berthnasol arall, gan gynnwys cwynion a wneir, yn cael ei chynnwys yn Adroddiadau Blynyddol yr Awdurdod, sydd ar gael yn gyhoeddus

**Gwybodaeth Gyhoeddus**

<u>Cod Ymarfer</u>

Caiff copi o'r Cod Ymarfer hwn ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod a bydd copi ar gael i unrhyw un ar gais. Caiff copïau ychwanegol eu rhoi mewn gorsafoedd heddlu a swyddfeydd *derbynfa'r* Awdurdod.

Adroddiad Blynyddol

Caiff yr adroddiad blynyddol ac adroddiad blynyddol blynyddoedd dilynol eu cyhoeddi erbyn diwedd pob blwyddyn ariannol. Hefyd, bydd copi o'r adroddiad blynyddol ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Arwyddion

Caiff arwyddion (fel y gwelir isod) eu gosod yn ardal y camerâu a ger prif fynedfeydd y mannau perthnasol, e.e. gorsafoedd trenau a bysiau. Bydd yr arwyddion yn nodi:

i) Presenoldeb monitro system Teledu Cylch Cyfyng;

ii) 'Perchnogaeth' y system;

iii) Rhif ffôn cyswllt a rheolwr data'r system

Atodiad B

## 5.0 ASESIAD O'R SYSTEM A CHOD YMARFER

**Gwerthuso**

Caiff y System ei gwerthuso'n annibynnol bob hyn a hyn er mwyn cadarnhau a gydymffurfir â dibenion y system ac a gyflawnir yr amcanion. Bydd fformat y gwerthusiad yn cydymffurfio â'r hyn a osodir gan Gyfarwyddiaeth Ystadegau ac Ymchwil y Swyddfa Gartref a'r Gyfarwyddiaeth Ymchwil yng Nghanllawiau Cynnig y Swyddfa Gartref ac ar sail asesiad o Fewnbynnau, Allbynnau, Proses ac Effaith y cynllun.

*i) Asesiad o'r effaith ar drosedd: Bydd yr asesiad hwn yn cynnwys yr ardal gyfagos a gwmpesir gan y camerâu, yn ogystal â'r dref ehangach, rhanbarthau'r heddlu a thueddiadau cenedlaethol.*

*ii) Asesiad o'r digwyddiadau a gaiff eu monitro gan y system*

*iii) Asesiad o'r effaith ar fusnes canol y dref*

*iv) Asesiad ar ardaloedd cyfagos heb system teledu cylch cyfyng*

*v) Barn a sylwadau'r cyhoedd*

*vi) Gweithrediad y Cod Ymarfer*

*vii) A yw'r dibenion y cafodd y system ei sefydlu ar eu cyfer yn berthnasol o hyd*

*viii) Cost-Effeithiolrwydd*

Caiff canlyniadau'r gwerthusiad eu cyhoeddi a'u defnyddio er mwyn adolygu a datblygu addasiadau at ddiben ac amcanion y cynllun a nodwyd, yn ogystal â dulliau rheoli a gweithredu'r system.

Bwriedir y dylid cynnal gwerthusiadau o leiaf bob dwy flynedd.

**Monitro**

Bydd rheolwr y system yn derbyn cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am fonitro, gweithredu a gwerthuso'r system a gweithredu'r Cod Ymarfer yma.

Bydd rheolwr y system hefyd yn gyfrifol am gynnal yr holl wybodaeth reoli o ran y digwyddiadau yr ymdrinnir â nhw yn yr ystafell fonitro, i'w defnyddio wrth reoli'r system ac mewn gwerthusiadau yn y dyfodol.

**Archwilio**

Bydd archwilydd yr Awdurdod neu unigolyn priodol arall, neu ei ddirprwy enwebedig, nad yw'n rheolwr y system, a fydd yn gyfrifol am archwilio gweithrediad y system yn rheolaidd a chydymffurfio â'r Cod Ymarfer yma. Bydd archwiliadau, a all fod ar ffurf hapwiriadau afreolaidd yn y man a'r lle, yn cynnwys archwilio cofnodion yr ystafell fonitro, hanes lluniau digidol a chynnwys deunydd a recordiwyd.

**Arolygu**

Gellir penodi corff o unigolion nad oes ganddynt gyswllt na pherthynas uniongyrchol â gweithrediad y system i fod yn gyfrifol am arolygu gweithrediad y system.

Dylid cynnal arolygiadau o leiaf unwaith y flwyddyn galendr gan ddim mwy na dau unigolyn ar unrhyw adeg Caniateir i'r arolygwyr gael mynediad i'r ystafell fonitro teledu cylch cyfyng, heb rybudd ymlaen llaw ac at y cofnodion a gedwir yno ar unrhyw adeg, ar yr amod na fydd eu presenoldeb yn tarfu ar weithrediad yr ystafell. Caiff eu canfyddiadau eu hadrodd i'r Archwilydd a chaiff eu hymweliad ei gofnodi yn yr ystafell fonitro Teledu Cylch Cyfyng.

## 6.0 RHEOLI A GWEITHREDU CAMERÂU

**Egwyddorion Arweiniol**

Bydd unrhyw un sy'n gweithredu'r camerâu'n ymddwyn yn gwbl onest ar bob adeg. Caiff yr holl gyfarpar a ddefnyddir ar gyfer monitro, recordio ac adolygu ei weithredu ar bob adeg dim ond gan bobl sydd wedi'u hyfforddi i'w ddefnyddio a goblygiadau deddfwriaethol eu defnyddio.

Bydd pob defnydd o'r camerâu'n cyd-fynd â dibenion ac amcanion allweddol y system a bydd yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer yma.

Fydd camerâu ddim yn cael eu defnyddio i edrych y tu mewn i eiddo preswyl preifat. Gellir rhaglennu 'parthau preifatrwydd' i mewn i'r system (lle bynnag y bo'n ymarferol bosibl) er mwyn sicrhau na fydd y camerâu'n goruchwylio'r tu mewn i unrhyw eiddo preswyl preifat sydd o fewn cwmpas y system.

**Nodwch:** Gall helpu i liniaru ofnau preswylwyr sy'n byw o fewn golwg camera os gwneir darpariaeth iddynt ymweld â'r ystafell fonitro. Gallai hyn roi sicrwydd ac atgyfnerthu'r ymagwedd broffesiynol a fabwysiedir at reoli'r system ac ufuddhau i'r gweithdrefnau.

Bydd gweithredwyr camerâu yn ystyriol o arfer rhagfarnau a all arwain at gwynion bod y system yn cael ei defnyddio at ddibenion ac eithrio'r rhai y cafodd ei chreu ar eu cyfer. Bydd yn ofynnol i'r gweithredwyr gyfiawnhau eu diddordeb mewn unrhyw unigolyn, grŵp o unigolion neu eiddo, neu ei/eu recordio, ar unrhyw adeg trwy rinwedd archwilio'r system neu gan reolwr y system.

**Rheolaeth Sylfaenol**

Dim ond yr aelodau staff hyfforddedig (trwyddedig) ac awdurdodedig â chyfrifoldeb am ddefnyddio'r cyfarpar Teledu Cylch Cyfyng a fydd â mynediad at y rheolyddion gweithredu. Bydd gan y gweithredwyr hynny reolaeth sylfaenol ar bob adeg.

**Rheolaeth Eilaidd**

Darperir cyfleusterau monitro eilaidd mewn Lleoliad Amgen.

Yn amodol ar ganiatâd a roddir gan Reolwr y System, gall ystafelloedd rheoli eilaidd gymryd rheolaeth o weithrediad y camerâu. Caiff y defnydd o gyfleusterau rheoli a monitro eilaidd ei weinyddu a'i gofnodi yn unol â'r Cod Ymarfer yma a'r Llawlyfr Gweithdrefnol ac nid yw'n lleihau o gwbl y rhwymedigaethau a osodir ar unrhyw un o'r bobl dan sylw er mwyn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol presennol.

**Bydd recordiadau a gwybodaeth a gesglir o system goruchwylio Teledu Cylch Cyfyng 'man cyhoeddus' yn cael eu storio'n unol â hynny mewn mannau storio diogel penodedig.**

**Rheolaeth Weithredol o'r System gan yr Heddlu**

O dan amgylchiadau gweithredol prin ac eithafol, mae modd i'r Heddlu wneud cais i orchymyn defnyddio'r System y mae'r Cod Ymarfer yma'n berthnasol iddi. Mae modd i'r amgylchiadau yma fod yn ddigwyddiad neu achlysur sy'n cael effaith sylweddol ar atal a chanfod trosedd neu ddiogelwch y cyhoedd. Bydd y fath ddefnydd yn rhoi trosolwg cyffredinol o ddigwyddiadau i'r heddlu er mwyn rheoli'r digwyddiad.

Caiff y fath geisiadau eu hystyried ar wahân i ddefnyddio camerâu'r system gyda sylw i'r gofyniad i awdurdod ar gyfer mathau penodol o oruchwylio o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

Bydd ceisiadau a wneir fel uchod yn cael eu hystyried ar gais ysgrifenedig swyddog heddlu nad yw'n is na rheng Uwch-arolygydd. Dim ond ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig personol cynrychiolydd uchaf perchnogion y System, neu ddirprwy dynodedig o statws cyfartal, y gellir bodloni'r fath gais Os bydd angen brys, bydd cais llafar yr uwch-swyddog â gofal ac, mewn unrhyw achos, swyddog nad yw ei reng yn is nag arolygydd, yn angenrheidiol. Dylid dilyn hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol o fewn 72 awr gan gais ysgrifenedig Uwch-arolygydd.

Os caniateir y fath gais, bydd yr Ystafell Fonitro'n parhau i gael ei staffio gan bersonél sydd wedi'i hyfforddi'n benodol ac yn dod dan delerau'r Cod yma a bydd yr un personél yn gweithredu'r cyfarpar. Yna, bydd yn gweithredu o dan reolaeth y swyddog heddlu a ddynodir yn y cais llafar/ysgrifenedig, gan ystyried ei gyfrifoldebau o dan y cod yma.

Mewn amgylchiadau eithafol iawn, gellir gwneud cais i'r Heddlu gymryd rheolaeth lwyr o'r System yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys staffio'r ystafell fonitro a rheolaeth bersonol o'r holl gyfarpar cysylltiedig, i eithrio holl gynrychiolwyr perchnogion y System. Dylid gwneud y fath gais i reolwr y System i ddechrau. Bydd yn ymgysylltu'n bersonol â swyddog uchaf perchnogion y System (neu ddirprwy dynodedig o statws cyfartal). Rhaid gwneud cais am reolaeth unigryw lwyr yn ysgrifenedig gan swyddog heddlu nad yw ei reng yn is na Phrif Gwnstabl Cynorthwyol neu unigolyn o statws cyfartal.

**Rheolaeth Sylfaenol**

Dim ond yr aelodau staff hyfforddedig (trwyddedig) ac awdurdodedig â chyfrifoldeb am ddefnyddio'r cyfarpar Teledu Cylch Cyfyng a fydd â mynediad at y rheolyddion gweithredu. Bydd gan y gweithredwyr hynny reolaeth sylfaenol ar bob adeg.

**Rheolaeth Eilaidd**

Darperir cyfleusterau monitro eilaidd yng Ngorsaf Heddlu Pontypridd

Yn amodol ar ganiatâd a roddir gan Reolwr y System, gall ystafelloedd rheoli eilaidd gymryd rheolaeth o weithrediad y camerâu. Caiff y defnydd o gyfleusterau rheoli a monitro eilaidd ei weinyddu a'i gofnodi yn unol â'r Cod Ymarfer hwn a'r Llawlyfr Gweithdrefnol ac nid yw'n lleihau o gwbl y rhwymedigaethau a osodir ar unrhyw un o'r bobl dan sylw er mwyn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol presennol.

**Cynnal a chadw'r system**

Er mwyn sicrhau bod cydymffurfio â Chod Ymarfer y Comisiynydd Gwybodaeth a bod y delweddau sy'ncael eu recordio'n parhau i fod o ansawdd tystiolaethol priodol, caiff y System ei chynnal a'i chadw'n unol â gofynion y Llawlyfr Gweithdrefnol o dan gytundeb cynnal a chadw.

Bydd y cytundeb cynnal a chadw'n gwneud darpariaeth ar gyfer gwiriadau gwasanaeth rheolaidd ar y cyfarpar a fydd yn cynnwys glanhau cromenni neu orchuddion pob tywydd, gwiriadau bod y cyfarpar yn gweithio, ac addasiadau mân y mae angen eu gwneud i leoliadau'r cyfarpar er mwyn cynnal ansawdd y llun.

Bydd y gwaith cynnal a chadw hefyd yn cynnwys archwiliad rheolaidd o'r holl gyfarpar a newid cyfarpar sy'n cyrraedd diwedd ei oes mewn gwasanaeth.

Bydd y cytundeb cynnal a chadw hefyd yn darparu ar gyfer presenoldeb 'brys' gan beiriannydd Teledu Cylch Cyfyng arbenigol ar y safle er mwyn unioni unrhyw golled neu ddiraddiad difrifol o ddelweddau neu reolaeth camerâu.

Bydd y cytundeb cynnal a chadw'n diffinio'r uchafswm cyfnodau a ganiateir ar gyfer presenoldeb gan y peiriannydd ac ar gyfer unioni'r broblem gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y digwyddiad a gofynion gweithredol yr elfen honno o'r system.

Cyfrifoldeb rheolwr y system yw sicrhau y cynhelir cofnodion priodol o ran gweithredu'r camerâu ac ymateb i'r sefydliad cynnal a chadw.

# 7.0 MYNEDIAD A DIOGELWCH AR GYFER Y GANOLFAN REOLI A CHYFARPAR CYSYLLTIEDIG

## Mynediad Awdurdodedig

Dim ond yr aelodau staff hyfforddedig (trwyddedig) ac awdurdodedig fydd yn gweithredu’r cyfarpar yn yr ystafell fonitro Teledu Cylch Cyfyng (neu gyfarpar sy’n gysylltiedig â’r System Teledu Cylch Cyfyng).

## Mynediad i'r Cyhoedd

Gwaherddir mynediad i'r cyhoedd at y cyfleuster monitro a recordio ac eithrio am resymau cyfreithlon, priodol a digonol a dim ond wedyn gydag awdurdodiad personol rheolwr y system. Caiff y fath ymweliadau eu cynnal a’u cofnodi'n unol â’r Llawlyfr Gweithdrefnol.

## Ymweliadau Awdurdodedig

Nid yw ymweliadau gan arolygwyr neu archwilwyr wedi’u cynnwys yng nghwmpas y paragraff uchod a gallan nhw ddigwydd ar unrhyw adeg, heb rybudd ymlaen llaw. Ni fydd mwy na dau arolygydd neu ddau archwilydd yn ymweld ar un adeg. Ni fydd arolygwyr nac archwilwyr yn dylanwadu ar weithrediad unrhyw ran o'r system yn ystod eu hymweliad. Caiff yr ymweliad ei ohirio os bydd yn weithredol anghyfleus. Dylid cofnodi’r fath ymweliad yn yr un ffordd â’r hyn a ddisgrifiwyd uchod.

## Datganiad Cyfrinachedd

Ni waeth beth yw eu statws, bydd yn ofynnol i’r holl ymwelwyr â’r ystafell fonitro Teledu Cylch Cyfyng, gan gynnwys arolygwyr ac archwilwyr, lofnodi’r llyfr ymwelwyr a chaiff eu manylion eu cofnodi'n electronig ar y system; bydd hyn yn cynnwys datganiad cyfrinachedd.

**Nodwch: Mae pob tudalen o'r Llyfr Ymwelwyr yn cynnwys datganiad cyfrinachedd fel nodyn atgoffa parhaus o'u rhwymedigaethau. Mae'r geiriad fel a ganlyn:-**

***Wrth gael mynediad i’r man hwn, cydnabyddaf fod union leoliad yr ystafell fonitro Teledu Cylch Cyfyng yn gyfrinachol ac y dylai hynny barhau. Cytunaf hefyd i beidio â datgelu unrhyw wybodaeth a geir neu y digwyddir ei chlywed neu ei gweld yn ystod fy ymweliad.***

***Drwy’r mynediad yma, ynghyd â’ch llofnod yn y llyfr ymwelwyr, rydych chi’n derbyn y telerau hyn.***

Mae hysbysiad i’w ddangos wrth fynedfa’r ystafell i roi gwybod i ymwelwyr eu bod yn mynd i mewn i fan cyfyngedig. Cynhwysir hysbysiad nodweddiadol yn Atodiad C.

## Diogelwch

Bydd personél awdurdodedig fel arfer yn bresennol ar bob adeg pan ddefnyddir y cyfarpar. Os caiff y cyfleuster monitro ei adael heb oruchwyliaeth am unrhyw reswm, caiff ei diogelu. Os bydd yn rhaid gadael yr ystafell fonitro am resymau diogelwch, cydymffurfir â darpariaethau’r Llawlyfr Gweithdrefnol.

Bydd ymwelwyr a staff yn mynd i mewn i’r ganolfan reoli ac yn ei gadael trwy system fynediad electronig - rhoddir ffob i bersonél awdurdodedig. Rhoddir mynediad i ymwelwyr â llaw a rhaid iddyn nhw lofnodi’r dogfennau angenrheidiol fel y nodwyd yn yr adran yma.

**Nodwch:** Mae camera golwg sefydlog y tu allan i'r ystafell reoli'n rhoi golwg o bobl i'r gweithredwyr cyn y rhoddir mynediad.

## 8.0 RHEOLI DEUNYDD WEDI'I RECORDIO

### *Egwyddorion Arweiniol*

At ddibenion y Cod yma, ystyr 'deunydd a recordio' yw unrhyw ddeunydd a gaiff ei recordio gan gyfarpar technegol sy'n rhan o'r System, neu o ganlyniad iddo, ond yn benodol mae'n cynnwys delweddau a recordir yn ddigidol, trwy eu copïo, gan gynnwys printiau fideo.

Mae gan bob recordiad a geir trwy ddefnyddio'r System y potensial o gynnwys deunydd y mae'n rhaid ei dderbyn mewn tystiolaeth ar ryw adeg yn ystod ei oes.

Rhaid i aelodau'r gymuned fod yn gwbl hyderus y bydd gwybodaeth a recordir am eu gweithgarwch bob dydd arferol trwy rinwedd y System yn cael ei thrin â sylw dyledus i'w hawl unigol i barch at eu bywyd preifat a theuluol.

Felly, beth bynnag yw'r dull neu'r fformat (e.e. copi papur, tâp fideo, tâp digidol, CD, neu unrhyw ffurf ar brosesu a storio electronig) mae o'r pwys mwyaf y trinnir delweddau a geir o'r system yn unol â'r Cod Ymarfer yma a'r Llawlyfr Gweithdrefnol o'r eiliad y bydd yr ystafell fonitro'n eu cael nes iddyn nhw gael eu dinistrio'n derfynol. Cofnodir pob symudiad a defnydd yn dra manwl. Bydd pob symudiad a defnydd yn cael eu cofnodi'n fanwl.

Bydd mynediad at y deunydd a recordir a'i ddefnydd at y dibenion a ddiffiniwyd yn y Cod Ymarfer hwn yn unig.

Ni fydd deunydd a recordir yn cael ei gopïo, ei werthu, ei gyhoeddi fel arall na'i ddefnyddio at ddibenion masnachol nac er mwyn darparu adloniant.

### *Y safon genedlaethol ar gyfer cyhoeddi data i drydydd parti*

Bydd pob cais i ryddhau data personol a gaiff ei gynhyrchu gan y System Teledu Cylch Cyfyng yn cael ei sianelu trwy Reolwr y System. Bydd Rheolwr y System yn sicrhau y caiff yr egwyddorion yn y Cod Ymarfer yma eu dilyn ar bob adeg.

Wrth gydymffurfio â'r safon genedlaethol ar gyfer rhyddhau data i drydydd partïon, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bwriedir diogelu hawliau'r unigolyn i breifatrwydd ac i weithredu'r egwyddorion canlynol:

- Caiff deunydd a recordir ei brosesu'n gyfreithlon ac yn deg, a'i ddefnyddio dim ond at y dibenion sydd wedi'u diffinio yn y Cod Ymarfer yma;
- Bydd mynediad at ddeunydd a recordir yn digwydd dim ond yn unol â'r safonau a amlinellir yn y Cod Ymarfer yma;
- Mae cyhoeddi neu ddatgelu data at ddibenion masnachol neu adloniant wedi'i wahardd yn benodol

Os dangosir deunydd i dystion, gan gynnwys swyddogion heddlu, at ddiben cael tystiolaeth adnabod, rhaid ei ddangos yn unol â'r Llawlyfr Gweithdrefnol.

Gall fod yn fuddiol defnyddio lluniau 'go iawn' ar gyfer hyfforddiant ac addysg y rhai sy'n ymwneud â gweithredu a rheoli systemau Teledu Cylch Cyfyng, ac i'r rhai sy'n ymwneud ag ymchwilio i drosedd, ei hatal a'i chanfod. Bydd unrhyw ddeunydd a recordir trwy rinwedd y system Teledu Cylch Cyfyng hon yn cael ei ddefnyddio dim ond at y fath ddibenion hyfforddiant

ac addysg diffuant. Ni fydd deunydd a recordir yn cael ei gyhoeddi at ddibenion masnachol nac adloniant.

***Polisi recordio***

Yn amodol ar y cyfarpar yn gweithio'n iawn, bydd delweddau o bob camera yn cael eu recordio trwy gydol pob cyfnod 24 awr mewn dull 12 awr oediog, trwy amlblecsyddion digidol ar recordwyr digidol. Bydd nifer y delweddau trwy bob amlblecsydd yn golygu na fydd mwy na 2 eiliad rhwng y fframiau olynol pan gânt eu chwarae yn ôl mewn dull oediog.

Bydd delweddau o rai camerâu'n cael eu recordio mewn amser go iawn yn ôl disgresiwn y gweithredwyr Teledu Cylch Cyfyng neu'n unol â chyfarwyddyd Rheolwr y System.

**CD/DVD – Darpariaeth ac Ansawdd**

Er mwyn sicrhau ansawdd y disgiau, ac y bydd gwybodaeth a gaiff ei recordio'n bodloni'r meini prawf a amlinellwyd gan ganllawiau'r Swyddfa Gartref, dim ond CD/DVD R, sydd i'w defnyddio gyda'r system.

***Cadw data***

Bydd lluniau a recordir yn cael eu cadw am 31 o ddyddiau [un mis calendr] cyn recordio drostyn nhw.

Bydd CD/DVDs yn cael eu defnyddio a'u storio'n unol â'r Llawlyfr Gweithdrefnol. Ar ddiwedd eu hoes yn y System Teledu Cylch Cyfyng byddant yn cael eu dinistrio a chaiff y dinistriad ei ardystio.

***Cofrestr Disg***

Bydd gan bob disg gofnod olrheinio unigryw a gynhelir yn unol â'r llawlyfr gweithdrefnol.

## ***Trosglwyddo data neu drosglwyddiad electronig***

*Gwnaed darpariaeth i drosglwyddo data i bobl awdurdodedig trwy Egress Switch.*

*(***Ardystiad Sicrwydd Cynnyrch Masnachol Llywodraeth y DU)**

Cedwir llwybr archwilio llwyr o drosglwyddiad y data ar y system a'i recordio ar y prif gyfrif Egress.

## ***Lluniau Tystiolaethol***

Os bydd angen lluniau at ddibenion tystiolaethol, cydymffurfir yn llwyr â'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Llyfryn Gweithdrefnol.

# Atodiad A Personél Allweddol a Chyfrifoldebau

## 1. Perchnogion y System - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Rheolwr y System yw'r**

Uwch Swyddog Teledu Cylch Cyfyng Ffôn: 01443 425001

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Canolfan Reoli Teledu Cylch Cyfyng

Tŷ Elái, Trewiliam

CF401NY

*Wayne.bluck@rctcbc.gov.uk*

**Cyfrifoldebau:**

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw 'perchennog' y system.
- Y Rheolwr Teledu Cylch Cyfyng fydd yr unig bwynt cyfeirio ar ran y perchnogion.

# Atodiad B Arwydd Teledu Cylch Cyfyng Rhondda Cynon Taf

RHONDDA CYNON TAF



**CAMERÂU AR WAITH**
**CCTV IN OPERATION**

**I ddibenion atal troseddu a diogelu'r gymuned**
**For the purpose of Crime Prevention and Community Safety**

**CYDLYNYDD Y SYSTEM**
**SYSTEM OPERATOR**

**01443 425005**

**https://www.rctcbc.gov.uk**

## Atodiad C Hysbysiad Mynediad Cyfyngedig

# RHYBUDD

# MAN MYNEDIAD CYFYNGEDIG

Mae'n ofynnol i bob un, beth bynnag fo'i statws, sy'n mynd i mewn i'r man hwn lenwi cofnod yn y Llyfr Ymwelwyr.

Cynghorir ymwelwyr i sylwi ar y cymal cyfrinachedd canlynol ac mae mynediad yn amodol ar dderbyn y cymal hwnnw:

Cymal Cyfrinachedd:

**'Wrth gael mynediad i'r man hwn, rydych chi'n cydnabod bod union leoliad yr ystafell fonitro Teledu Cylch Cyfyng yn gyfrinachol ac y dylai hynny barhau. Rydych chi'n cytuno i beidio â datgelu unrhyw wybodaeth a geir neu y digwyddir ei chlywed neu ei gweld yn ystod eich ymweliad. Drwy fynediad, ynghyd â'ch llofnod yn y Llyfr Ymwelwyr, rydych chi'n derbyn y telerau hyn'.**